Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# TROED YN Y DRWS
# HWB SGILIAU ABERTAWE



Ffoto: Jamie Panton

ffilm CYMRU WALES

FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

SGILIAU ar gyfer Abertawe
SKILLS for Swansea

Cyngor Abertawe
Swansea Council

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

POWERED BY
LEVELLING UP

# CROESO I'N HWB SGILIAU

Mae **Troed yn y Drws**, rhaglen hyfforddi lwyddiannus Ffilm Cymru Wales, yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy i greu gyrfaoedd creadigol.

Ers 2016, mae Troed yn y Drws wedi darparu rhaglenni sgiliau'r sector sgrin ledled Cymru, yn ogystal â lleoliadau hyfforddi i newydd-ddyfodiaid ar gynyrchiadau ffilm a theledu lleol fel *Dream Horse, Un Bore Mercher / Keeping Faith*, a *Sex Education* ar Netflix. Yn 2024, gyda chyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ac mewn partneriaeth â Sgiliau i Abertawe, Coleg Gwyr Abertawe a Chyngor Abertawe, mae Ffilm Cymru Wales yn cynnig cyfleoedd newydd drwy Droed yn y Drws i bobl yn Abertawe.

Drwy gydol mis Mehefin, mae ein hwb sgiliau newydd yn HQ Urban Kitchen yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau i'ch helpu i gael eich Troed yn y Drws yn y diwydiannau creadigol.

**www.footinthedoorwales.com**




Ffoto: Jo Haycock

# BLE RYDYN NI?

**HQ Urban Kitchen**
Wedi'i leoli yng nghanol Ardal Greadigol Abertawe

Yr Hen Orsaf Heddlu
Llys Glas
Stryd y Berllan
Abertawe
SA1 5AJ

hqurbankitchen.co.uk







Ffoto: Jamie Panton

**www.footinthedoorwales.com**

# BETH SYDD YMLAEN

| DYDDIAD | AMSER | ARWEINYDD CWRS | GWEITHGAREDD |
|---|---|---|---|
| 4 Mehefin | 10:00 | Joëlle Rumbelow | **Cyflwyniad i Ddylunio Cynhyrchiad - Diwrnod 1**<br>Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â chreu elfennau gweledol ar gyfer ffilm, teledu a mathau eraill o gynhyrchu'r cyfryngau. Drwy'r gweithdai, bydd y sawl sy'n bresennol yn deall rôl a chyfrifoldebau'r dylunydd cynhyrchu a sut mae'r rôl yn cydweithio â'r cyfarwyddwr, y cynhyrchydd ac aelodau eraill o'r criw. |
| 5 Mehefin | 10:00 | Joëlle Rumbelow | **Cyflwyniad i Ddylunio Cynhyrchiad - Diwrnod 2**<br>Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â chreu elfennau gweledol ar gyfer ffilm, teledu a mathau eraill o gynhyrchu'r cyfryngau. Drwy'r gweithdai, bydd y sawl sy'n bresennol yn deall rôl a chyfrifoldebau'r dylunydd cynhyrchu a sut mae'r rôl yn cydweithio â'r cyfarwyddwr, y cynhyrchydd ac aelodau eraill o'r criw. |
| 6 Mehefin | 10:00 | Zepur Agopyan | **Cyflwyniad i Wisgoedd yn y Diwydiant - Diwrnod 1**<br>Cyflwyniad cyflym i weithio ym maes gwisgoedd, a rhai o'r gwahanol rolau / llwybrau sydd ar gael. Bydd yn cynnwys rhai tasgau ymarferol i'ch cyflwyno i rai sgiliau a phrosesau sydd eu hangen i ddechrau dylunio a gwisgo cymeriad. |
| 7 Mehefin | 10:00 | Zepur Agopyan | **Cyflwyniad i Wisgoedd yn y Diwydiant - Diwrnod 2**<br>Cyflwyniad cyflym i weithio ym maes gwisgoedd, a rhai o'r gwahanol rolau / llwybrau sydd ar gael. Bydd yn cynnwys rhai tasgau ymarferol i'ch cyflwyno i rai sgiliau a phrosesau sydd eu hangen i ddechrau dylunio a gwisgo cymeriad. |

# BETH SYDD YMLAEN

| DYDDIAD | AMSER | ARWEINYDD CWRS | GWEITHGAREDD |
|---|---|---|---|
| 11 Mehefin | 10:00 | Hannah James-Johnson | **Cyflwyniad i leoliadau ar gyfer ffilm a theledu - Diwrnod 1**<br>Cwrs rhagarweiniol i'r Adran Leoliadau ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Bydd yn cyffwrdd â phob elfen o'r hyn y mae bod yn Rheolwr Lleoliad yn ei olygu a sut mae'n gweithio o fewn cynhyrchiad i greu'r hyn a welwch ar y sgrin. |
| 12 Mehefin | 10:00 | Hannah James-Johnson | **Cyflwyniad i leoliadau ar gyfer ffilm a theledu - Diwrnod 2**<br>Cwrs rhagarweiniol i'r Adran Leoliadau ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu. Bydd yn cyffwrdd â phob elfen o'r hyn y mae bod yn Rheolwr Lleoliad yn ei olygu a sut mae'n gweithio o fewn cynhyrchiad i greu'r hyn a welwch ar y sgrin. |
| 13 Mehefin | 10:00 | Grant Vidgen, Iris Prize LGBTQ+ Film Festival | **Cynllunio, rhaglennu a chynnal gwyl ffilmiau - Diwrnod 1**<br>Byddwch yn dysgu sut i gynllunio, rhaglennu, hyrwyddo a chyflwyno g□yl ffilmiau fach. Rhannu ffilmiau â chynulleidfaoedd yw hanfod creu ffilmiau a gall g□yl ffilmiau fod yn ffordd wych i gyflwyno cynulleidfa i ffilmiau na fydden nhw fel arfer yn cael cyfle i'w gwylio. |
| 14 Mehefin | 10:00 | Grant Vidgen, Iris Prize LGBTQ+ Film Festival | **Cynllunio, rhaglennu a chynnal gwyl ffilmiau - Diwrnod 2**<br>Byddwch yn dysgu sut i gynllunio, rhaglennu, hyrwyddo a chyflwyno g□yl ffilmiau fach. Rhannu ffilmiau â chynulleidfaoedd yw hanfod creu ffilmiau a gall g□yl ffilmiau fod yn ffordd wych i gyflwyno cynulleidfa i ffilmiau na fydden nhw fel arfer yn cael cyfle i'w gwylio. |

# BETH SYDD YMLAEN

| DYDDIAD | AMSER | ARWEINYDD CWRS | GWEITHGAREDD |
|---|---|---|---|
| 18 Mehefin | 10:00 | Joëlle Rumbelow | **Cyflwyniad i Ddylunio Cynhyrchiad - Diwrnod 1**<br>Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â chreu elfennau gweledol ar gyfer ffilm, teledu a mathau eraill o gynhyrchu'r cyfryngau. Drwy'r gweithdai, bydd y sawl sy'n bresennol yn deall rôl a chyfrifoldebau'r dylunydd cynhyrchu a sut mae'r rôl yn cydweithio â'r cyfarwyddwr, y cynhyrchydd ac aelodau eraill o'r criw. |
| 19 Mehefin | 10:00 | Joëlle Rumbelow | **Cyflwyniad i Ddylunio Cynhyrchiad - Diwrnod 2**<br>Bydd y cwrs hwn yn ymdrin â'r egwyddorion sylfaenol a'r sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â chreu elfennau gweledol ar gyfer ffilm, teledu a mathau eraill o gynhyrchu'r cyfryngau. Drwy'r gweithdai, bydd y sawl sy'n bresennol yn deall rôl a chyfrifoldebau'r dylunydd cynhyrchu a sut mae'r rôl yn cydweithio â'r cyfarwyddwr, y cynhyrchydd ac aelodau eraill o'r criw. |
| 20 Mehefin | 10:00 | TBC | **Cyflwyniad i Sgiliau Camera - Diwrnod 1**<br>More details to follow. |
| 21 Mehefin | | Zoë Rushton & Hannah Williams, BBC Studios | **Caffi Gyrfaoedd** |

# BETH SYDD YMLAEN

| DYDDIAD | AMSER | ARWEINYDD CWRS | GWEITHGAREDD |
|---|---|---|---|
| 25 Mehefin | 10:00 | Danny Marie Elias, Square Peg Studios | **Colur effeithiau arbennig anafiadau realistig ar gyfer ffilm a theledu - Diwrnod 1**<br>Trosluniau anafiadau 2D. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i arbrofi â graffeg trosluniau gan greu effeithiau anafiadau realistig. Bydd y myfyrwyr yn dysgu am effeithiau 2D yn ogystal â datblygu cymeriad a manylion gan greu golwg orffenedig. |
| 26 Mehefin | 10:00 | Danny Marie Elias, Square Peg Studios | **Colur effeithiau arbennig anafiadau realistig ar gyfer ffilm a theledu - Diwrnod 2**<br>Byddwn nawr yn datblygu'r technegau a ddangoswyd ar y diwrnod cyntaf ac yn eu defnyddio i greu effeithiau anafiadau realistig 3D wedi'u gosod yn uniongyrchol. Byddwn yn defnyddio deunyddiau a thechnegau mwy datblygedig gan edrych ar y defnydd o symudiad a rigiau gwaed gyda demo rhyngweithiol. Yna fe fyddan nhw'n creu golwg portffolio gorffenedig. |
| 27 Mehefin | 10:00 | TBC | **Cyflwyniad i Sgiliau Camera - Diwrnod 2**<br>More details to follow. |
| 28 Mehefin | | Ffilm Cymru Wales | **Caffi Gyrfaoedd**<br>Dewch i ddysgu am ddiwydiant ffilmiau Cymru a chlywed sut mae gwneuthurwyr ffilmiau sy'n gweithio yng Nghymru wedi derbyn cyllid i ddatblygu eu syniadau yn realiti, o ffilmiau byrion sydd wedi ennill gwobrau mewn gwyliau i ffilmiau nodwedd sydd wedi ennill gwobrau BAFTA, a dysgu am sut i gyflwyno eich syniadau eich hun. |

# ARWEINWYR Y CYRSIAU

**Danny Marie Elias**

Gyda set sgiliau helaeth a thechnegau arloesol, mae Danny Marie wedi sefydlu ei hun yn gadarn fel un o brif artistiaid colur y DU.

Mae ei steil unigryw a'i set sgiliau cyflawn wedi caniatáu iddi weithio nid yn unig fel dylunydd gwallt a cholur ym maes teledu a ffilm, ond hefyd fel dylunydd prostheteg blaenllaw. Mae rhai o'i gwaith diweddaraf yn cynnwys: Doctor *Who, Havoc* gan Netflix, *Star Wars* gan Disney, *Artemis Fowl* gan Disney, *Victor Frankenstein* gan 20th Century Fox, *Patrick Melrose, The King, The Spanish Princess, Sherlock, The Crown, Un Bore Mercher / Keeping Faith, Vanity Fair, Show Dogs, Humans 3, White Princess, X-Factor*, a *Will*.



# ARWEINWYR Y CYRSIAU

**Grant Vidgen**

Mae Grant wedi bod yn ymwneud â thimau sy'n rhannu ffilmiau â chynulleidfaoedd ers 1989, gan ddechrau fel rheolwr traffig print ar gyfer Gŵyl Ffilmiau Aberystwyth. Ers hynny mae wedi gweithio gyda Gŵyl Ffilmiau Rhyngwladol Cymru, Gŵyl Sgrin Caerdydd, Ffresh, Gŵyl Ffilmiau Mini Caerdydd a Gwobr Iris.

Y tu allan i gyfnod prysuraf yr ŵyl, bydd Grant yn cadw seilwaith y swyddfa i fynd ac mae hefyd yn gweithio fel un o gynhyrchwyr ffilm fer nesaf enillydd Gwobr Iris.



# ARWEINWYR Y CYRSIAU

**Hannah James-Johnson**

Mae Hannah yn Rheolwr a Sgowt Lleoliadau sy'n gweithio yng Nghaerdydd, ac mae wedi gweithio ar draws cynyrchiadau ffeithiol ac wedi'u sgriptio ym Mhrydain a Seland Newydd.

Dechreuodd ei gyrfa yng Nghymru ac mae wedi gweithio ar gynyrchiadau o bob maint, o Y Golau ar S4C i Sex Education ar Netflix. Ar hyn o bryd mae hefyd yn gweithio'n rhan-amser i Ffilm Cymru Wales, yn helpu newydd-ddyfodiaid i ddod o hyd i'w ffordd i mewn i'r diwydiant ac yn cefnogi'r tîm cynhyrchu a datblygu gan weithio ar leoliadau hyfforddi a chysgodi ar gynyrchiadau sy'n cael eu hariannu gan Ffilm Cymru Wales.



# ARWEINWYR Y CYRSIAU

**Zepur Agopyan**

Mae gen i gefndir mewn adeiladu / dylunio gwisgoedd a'r celfyddydau gweledol. Rwy wedi cael hyfforddiant ffurfiol yn y ddau faes, ac mae gen i dros 11 mlynedd o brofiad yn y diwydiant, o theatr, perfformio ac opera, i ffilmiau nodwedd a theledu.

Rwy'n gweithio fel gweithiwr llawrydd ym myd ffilm a theledu o safon uchel, yn bennaf yng Nghymru, ac am y rhan fwyaf o'r amser hwn ym maes Gwisgoedd, Propiau Gwisgoedd, yr Adran Gelf ac weithiau Propiau.



Ffoto: Erin Rickard / Volcano

# ARWEINWYR Y CYRSIAU

**Joëlle Rumbelow**

Mae Joëlle Rumbelow yn ddylunydd ac fe'i henwebwyd am wobr Emmy fel addurnwr set. Mae'n adnabyddus am ei gwaith yn y diwydiant ffilm a theledu. Fe'i hyfforddwyd mewn pensaernïaeth ac mae ganddi angerdd am gyfarwyddo creadigol, adrodd stori ac adeiladu byd.

Mae gan Joëlle y gallu i wireddu sgriptiau gyda gweledigaeth empathetig sy'n seiliedig ar gymeriad. Mae'n gweithio ar draws nifer o genres gyda'r timau ysgrifennu, cyfarwyddo, cynhyrchu, creadigol a thechnegol i wneud y mwyaf yn greadigol wrth gyflawni setiau yn unol ag amserlen a chyllideb.



# SUT I ARCHEBU LLE

Mae holl gyrsiau'r Hwb Sgiliau ar gael yn rhad ac am ddim. Mae pob cwrs yn rhedeg dros ddau ddiwrnod, a rhaid i chi fod ar gael ar ddau ddyddiad y cwrs.

**Ydych chi'n gymwys?**

Rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn, yn byw neu'n gweithio yn Abertawe a heb fod mewn addysg amser llawn. Rhaid i chi hefyd gael yr hawl i aros yn y Deyrnas Unedig.

**Ar gyfer pwy mae hyn?**

I rai sydd am wybod mwy am rolau creadigol a gwella eich sgiliau a'ch gwybodaeth am y sector creadigol.



**I gael rhagor o wybodaeth ac i archebu lle, ewch i www.footinthedoorwales.com**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglyn â'r ffurflenni archebu, cysylltwch â footinthedoor@ffilmcymruwales.com

Ffoto: Jamie Panton

# FFILM CYMRU WALES

**Ffilm Cymru Wales yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru.**

Ymrown i hyrwyddo a chynnal diwydiant ffilmiau cryf i Gymru; un y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Darparu cyllid a hyfforddiant i wneuthurwyr ffilm newydd a sefydledig yng Nghymru
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru
- Datblygu sgiliau newydd a llwybrau gyrfa i bobl trwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi.



**www.ffilmcymruwales.com**



ffilm CYMRU WALES

FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS

footinthedoorwales.com

@FootintheDoorWales

@FfilmCymruWales

Ffoto: Jamie Panton